## ATODIAD 2 - BIDIAU REFENIW UN-TRO

## BIDIAU REFENIW UN-TRO 2023/24

| | Teitl y Bid | Manylion y Bid | Swm a argymhellir (£) |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG** | | | |
| Un-tro 1 | Bid System Rheoli Gwybodaeth Addysg | Mae'r Adran wedi caffael system Reoli Gwybodaeth Addysg newydd a fydd yn arwain at arbedion. Mae'r bid un-tro yma ar gyfer costau ychwanegol gan fod dau gytundeb yn gorgyffwrdd. | 54,600 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | | |
| Un-tro 2 | Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol | Bid am dair swydd Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol am flwyddyn (Arfon, Meirion, Dwyfor). | 130,000 |
| **AMGYLCHEDD** | | | |
| Un-tro 3 | Casglu Gwastraff: ôl-ddyddio taliadau | Ôl-ddyddio taliadau yn dilyn arfarniad swyddi casglu gwastraff. | 142,500 |
| Un-tro 4 | Rheolaeth o ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor - cost adnoddau i sefydlu a gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 | Yn dilyn pwysau gan y Cyngor a'r gwaith ymchwil, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o gyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth cynllunio. Mae'r newidiadau'n cyflwyno dosbarthiadau defnydd cynllunio newydd ar gyfer prif gartref, ail gartref a llety gwyliau byr dymor. Yn sgil hyn, os gall Awdurdod dystiolaethu fod ail gartrefi a llety gwyliau byr dymor yn achosi niwed i gymunedau – yna drwy ymgymryd â phroses gyfreithiol a elwir yn gyfarwyddyd erthygl 4, gellir atal prif gartref rhag newid i ail gartref neu lety gwyliau byr dymor, heblaw fod caniatâd cynllunio mewn lle.<br><br>Mae'r bid yma ar gyfer adnoddau i sefydlu a gweithredu y cyfarwyddyd am gyfnod o dair mlynedd ac eithrio ardal Dwyfor sydd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Beilot Dwyfor. | 400,000 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | |
| Un-tro 5 | Materion Cyllidol Byw'n Iach - colled incwm | Mae'r bid yma ar gyfer y colled incwm a ragwelir dros y flwyddyn nesaf ac mae'r cwmni'n dal i geisio adfer eu incwm i'r lefelau cyn covid. | 654,938 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Un-tro 6 | Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd | Bydd Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn cael ei chynnal ym Moduan yn mis Awst 2023. Bydd costau ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor er mwyn croesawu'r Eisteddfod i Wynedd. Nid yw'r union gostau yn glir eto, ac mae bwriad targedu cronfeydd allanol hefyd i gefnogi'r gwaith. Ond yn fras, ystyrir bydd angen cyllideb ychwanegol er mwyn cyfarch:<br>•Costau paratoi a thacluso'r ardal<br>•Costau Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>•Costau cefnogi busnesau a mentrau lleol i baratoi<br>•Costau Stondin Gwynedd, arddangosfa, gweithgareddau a digwyddiadau | 150,000 |
| Un-tro 7 | Llewyrch o'r Llechi: Cydlynydd Treftadaeth y Byd Gogledd Orllewin Cymru | Ers Gorffennaf 2022 mae Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei arysgrifio fel Safle Treftadaeth y Byd. Mae disgwyliadau arnom i weithredu a gwireddu'r Cynllun  Er mwyn gwireddu'r Cynllun Rheoli ac ymateb i ofynion Unesco, mae'r mwyafrif o Safleoedd Treftadaeth Byd yn cyflogi Cydlynydd a dyma yw'r bid hwn. | 77,262 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | |
| Un-tro 8 | Cronfa Dysgu a Datblygu Gorfforaethol | Parhau efo trefniant hanesyddol ar gyfer cyllido Rhaglen Hyfforddiant Gorfforaethol, sef gwneud bid bob 3 mlynedd am arian i gynnal y gronfa. Bydd yr arian yn cyllido prynu hyfforddiant allanol (ble nad oes darpariaeth fewnol) a chyllido dysgu drwy dechnoleg (e-ddysgu). | 450,000 |
| Un-tro 9 | Enwau Strydoedd | Cais am arian i gyllido darn o waith fel rhan o'r prosiect enwau llefydd – yn benodol ar gyfer cyfarch yr elfen 'enwau strydoedd'.<br>Y bwriad yw codi statws gweledol yr iaith trwy gael y fersiwn Gymraeg ar arwyddion strydoedd yng Ngwynedd.<br>Mae'r bid yma ar gyfer ariannu arwyddion newydd dros gyfnod o ddwy flynedd. | 60,000 |
| | | | **2,119,300** |